wavehill
Social and economic research

wavehill.com

# Ymgynghorydd Ymchwil

**Disgrifiad Swydd a Manyleb Bersonol**

**Mehefin 2025**



# Ymgynghorydd Ymchwil

## Prif wybodaeth

- Rôl barhaol gyda swyddi llawn amser a rhan amser ar gael.
- Band cyflog rhwng £25,000 a £28,500 (ynghyd â phwysoliad Llundain pan fo'n berthnasol) yn dibynnu ar brofiad.
- Cyfran o'r elw blynyddol hyd at 15% o'ch cyflog, a'r £3,600 cyntaf yn ddi-dreth.
- Lleoliadau swyddfa yn Aberaeron, Bryste, Llundain, a Newcastle.
- Model gweithio hybrid a chyfle i weithio'n hyblyg.
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 11:59 pm ar 11eg Gorffennaf 2025
- Ymgeisiwch drwy lanlwytho eich CV a llenwi'r ffurflen gais yn manylu ynghylch eich profiad perthnasol a pham fod gennych chi ddiddordeb.
- Disgwyliwn i'r dyddiad dechrau fod o fis Medi 2025 i ymgeiswyr llwyddiannus

# Ynghylch y pecyn hwn

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â'n tîm. Bwriad y pecyn recriwtio hwn yw rhoi syniad i chi ynghylch pwy ydym ni a sut beth yw gweithio yn Wavehill. Bydd yn eich tywys trwy ein proses recriwtio ac yn rhoi cymaint o fanylion â phosibl i chi i'ch helpu a'ch cefnogi.

Rydym ein gwneud ein gorau i wneud yn siŵr bod ein prosesau recriwtio mor gynhwysol â phosibl. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais am swydd. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion neu ofynion hygyrchedd, neu os oes angen y pecyn hwn arnoch mewn unrhyw fformat arall.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, ein proses recriwtio, neu unrhyw ymholiadau eraill ynghylch recriwtio, mae pob croeso i chi gysylltu drwy anfon e-bost i: recruitment@wavehill.com.

# Ynghylch Wavehill

## Ymchwil sy'n gwneud gwahaniaeth.

Yn Wavehill, rydym yn cynnig gwasanaeth ymchwilio, dadansoddi a gwerthuso cymdeithasol ac economaidd sy'n ddiduedd. Mae ein dull cydweithredol yn galluogi ein cleientiaid i wneud penderfyniadau gwell a gwybodus mewn da bryd. Rydym yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac ar bob lefel llywodraeth yn y DU. Rydym yn helpu ein cleientiaid i lywio drwy'r dirwedd polisi a chyllido ledled y DU. Drwy gydweithio'n agos â'n cleientiaid, rydym yn sicrhau eu bod yn cael y gwerth mwyaf a'r canlyniad gorau o'u gweithgarwch. Mae ein cyrhaeddiad yn ymestyn ledled y DU a swyddfeydd gennym yn Aberaeron, Bryste, Newcastle, a Llundain.

I gael rhagor o fanylion, ewch i www.wavehill.com

# Crynodeb o'r rôl

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr eithriadol o gefndiroedd economeg a'r gwyddorau cymdeithasol. Rydym yn croesawu ceisiadau gan raddedigion diweddar, ôl-raddedigion yn ogystal â myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf o astudio. Mae profiad gwaith blaenorol mewn ymgynghoriaeth polisi cyhoeddus neu rolau ymchwil cysylltiedig yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Bydd yr Ymgynghorydd Ymchwil yn rhoi cefnogaeth o ansawdd uchel i aelodau tîm Wavehill, ac yn ymwneud â phob agwedd ar waith y cwmni gan gynnwys tendro, llunio holiaduron, gwaith maes (ansoddol a meintiol), dadansoddi data ac adrodd. Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth i'r ymgeisydd llwyddiannus i ddatblygu ei sgiliau ar draws ystod o ddisgyblaethau. Gan ein bod yn ymgynghoriaeth gwbl ddwyieithog, croesawir ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Rôl a chyfrifoldebau

- Ymchwil desg, gan gynnwys adolygu llenyddiaeth a pholisïau.
- Casglu a dadansoddi data economaidd-gymdeithasol.
- Llunio holiaduron a defnyddio offer ymchwil (ansoddol a meintiol).
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid, gan gynnwys wyneb yn wyneb a dros y ffôn.
- Hwyluso grwpiau ffocws a thrafodaethau grŵp.
- Dadansoddi data a gwybodaeth ansoddol a meintiol.
- Drafftio adroddiadau dan oruchwyliaeth Ymgynghorwyr ac Uwch Ymgynghorwyr.
- Cynorthwyo wrth gyflwyno canfyddiadau adroddiadau yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo a mynychu cyfarfodydd â chleientiaid yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo wrth baratoi tendrau yn ôl yr angen.
- Datblygu cynnwys ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith Wavehill.
- Mynychu cynadleddau a digwyddiadau yn ôl yr angen.
- Sesiynau rhannu gwybodaeth mewnol yn ôl yr angen.

## Crynodeb o'r swydd

| | |
|---|---|
| Yn atebol i | Rheolwr Llinell |
| Rheolaeth | Neb yn adrodd yn uniongyrchol i chi |
| Lleoliad | Aberaeron, Bryste, Llundain, neu Newcastle. |
| Oriau gwaith | 36 awr yr wythnos yn llawn amser.<br>Rolau rhan-amser ar gael (o leiaf 0.6 FTE) |
| Math o gontract | Swydd barhaol yw hon, a'r cyfnod prawf yw tri mis. |
| Gwiriad DBS | Bydd gofyn i chi gael gwiriad DBS a bydd Wavehill yn talu am hwn. |
| Hawl i weithio | Nid ydym yn cynnig nawdd fisa ar gyfer y rôl hon. Rhaid i ymgeiswyr fod â'r hawl i weithio yn y DU heb yr angen am nawdd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr a fydd yn gymwys i weithio yn y DU trwy'r llwybr Fisa Graddedigion. |
| Cyflog | Rhwng £25,000 a £28,500 (ynghyd â phwysoliad Llundain pan fo hynny'n berthnasol) yn dibynnu ar brofiad. Nid yw hyn yn cynnwys cyfran o'r elw. |
| Pensiwn | Rydym yn aelod o gynllun pensiwn NEST, a byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig ar ôl eich cyfnod prawf. |
| Rhannu elw | Mae gennym gynllun rhannu elw blynyddol. Gall cydweithwyr dderbyn hyd at 15% o'u cyflog (ni chodir treth ar y £3,600 cyntaf). Mae cydweithwyr yn gymwys i gael hwn ar ôl cwblhau eu cyfnod prawf yn llwyddiannus. |

# Buddion i'r cyflogeion

### Y gweithwyr sy'n berchen ar Wavehill

- Mae cydweithwyr yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol y cwmni.
- Mae fforymau staff chwarterol yn gyfle i staff drafod pynciau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw.
- Ceir cynrychiolaeth staff ar Fwrdd Ymddiriedolaeth Perchnogaeth Gweithwyr.
- Mae'r cyfle i brynu cyfranddaliadau yn Wavehill am bris gostyngol trwy gynllun Cymhelliant Rheoli Menter (EMI) y cwmni.
- Mae 1% o'r elw blynyddol cyn treth yn mynd i achosion da: a'r staff sy'n dewis ac yn pleidleisio ar y rhain.

### System bonws rhannu'r elw blynyddol

- Cewch gyfran o elw blynyddol Wavehill, sy'n cynnwys lwfans di-dreth o £3,600.
- Mae cyfran elw cyfartalog dros y 4 blynedd diwethaf wedi bod **dros 9%** o gyflog staff.

### Cynllun pensiwn

- Aelodau o gynllun pensiwn Nest
- Cyfraniad cyflogwr o 5% i gyfateb eich cyfraniadau ynghyd ag opsiynau aberthu cyflog os dymunwch.

### Polisïau ar gyfer teuluoedd

Gall teuluoedd fod ar ffurf sawl siâp gwahanol ac yn Wavehill rydym yn ymfalchïo mewn sicrhau **amgylchedd gwaith sy'n gyfeillgar i deuluoedd** i bob cydweithiwr. Mae hyn yn cynnwys gwell absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu a bod yn hyblyg tuag at y rheiny sydd â dibynyddion neu gyfrifoldebau gofalu.

### Hawl gwyliau blynyddol

- Mae gan staff hawl i 25 diwrnod o wyliau ac eithrio Gwyliau Banc, wedi'u cyfrifo ar sail pro rata.
- Caiff staff ddiwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol am bob 2 flynedd galendr o wasanaeth di-dor, hyd at uchafswm o 5 diwrnod o wyliau.
- Gall staff werthu hyd at 3 diwrnod o wyliau sydd heb eu defnyddio bob blwyddyn.

### Gweithio hyblyg a hybrid



Mae ein swyddfeydd wedi'u lleoli yn Aberaeron, Bryste, Llundain, a Newcastle.

- Mae gennym drefniadau gweithio hybrid sy'n cyfuno gweithio gartref â gweithio yn y swyddfa yn ogystal â threfniadau **gweithio hyblyg**.
- Rydym yn gweithredu **pythefnos weithio naw diwrnod**. Mae hyn yn golygu bod staff llawn amser yn cael diwrnod i ffwrdd bob pythefnos. Ar gyfer staff rhan-amser mae trefniadau hyblyg eraill ar waith.

## Polisïau sy'n cefnogi'r unigolyn

Cynlluniwyd ein hystod eang o bolisïau i gefnogi pawb sy'n gweithio i Wavehill. Caiff ein holl bolisïau eu hadolygu bob blwyddyn.

### Iechyd meddwl a lles

Rydym wedi ymrwymo i annog a chefnogi iechyd meddwl a lles da.

- Mae pob rheolwr llinell wedi'i hyfforddi i gefnogi iechyd meddwl.
- Mae hyrwyddwyr lles yn codi ymwybyddiaeth ac yn gallu atgyfeirio at gefnogaeth.

### Rhaglen Cefnogaeth i Weithwyr (EAP)

Mae hwn yn wasanaeth cyfrinachol rhad ac am ddim sy'n cynnig cymorth ac arweiniad ar gyfer unrhyw faterion personol neu broffesiynol a allai effeithio ar eich iechyd a'ch lles. Mae ar gael 24/7, 365 diwrnod yr wythnos.

### Datblygu gyrfa

Rydym yn annog ein holl staff i ddatblygu eu gyrfaoedd. Rydym am rymuso staff i benderfynu ar natur yr hyfforddiant y maent am ei gael ac mae Wavehill yn ariannu amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau datblygu'r gweithlu.

### Datblygu tîm

Yn ogystal â gwaith prosiect, mae gennym weithgorau y gall staff wirfoddoli i gymryd rhan ynddynt ar ystod o feysydd gan gynnwysYn ogystal â gwaith prosiect, mae gennym weithgorau y gall staff wirfoddoli i gymryd rhan ynddynt ar ystod o feysydd gan gynnwys

- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I)
- Effaith Amgylcheddol

Caiff staff eu hannog hefyd i roi mewnbwn rheolaidd drwy holiaduron mewnol gan gynnwys bodlonrwydd staff, ED&I a sgiliau.

**Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd**

Rydym yn llwyr ddeall pwysigrwydd datblygu cyfalaf cymdeithasol ar draws ein holl swyddfeydd. I'r perwyl hwn rydym yn aml yn cynnal Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd er mwyn i gydweithwyr ar draws y swyddfeydd ddod at ei gilydd. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle i gydweithwyr gyfrannu at ddatblygu strategaethau a chanolbwyntio ar feithrin a datblygu tîm.

# Manyleb bersonol

| | H-Hanfodol<br>D-Dymunol | Sut y caiff hyn ei asesu? |
|---|---|---|
| Gwerthoedd a chydraddoldebau | | |
| Yn uniaethu â gwerthoedd ac ethos Wavehill. | H | Ffurflen gais/cyfweliad |
| Profiad | | |
| Cynllunio a rheoli prosiectau ymchwil a gwerthuso yn effeithiol a hynny drwy gylch oes llawn y prosiect, o lunio'r cynnig i roi'r prosiect ar waith, ei gwblhau, a'i adolygu wedyn. | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Profiad ac/neu ddiddordeb a dealltwriaeth gref o bolisi a strategaeth ledled y DU. | H | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Gwybodaeth | | |
| Gallu dangos fod gennych wybodaeth o ddulliau ymchwilio a gwerthuso a dadansoddi (gan gynnwys elfennau ansoddol a meintiol). | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Gallu dangos fod gennych wybodaeth o bolisïau Llywodraeth (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ac/neu ddiddordeb ynddo. | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Gallu cwestiynu data a bod yn feirniadol wrth werthuso ei gadernid. | H | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Dangos dealltwriaeth o gynnal ymchwil ymarferol a chadarn o ran ei gynllun a chynnal gwaith maes | D | |
| Diddordeb mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:<br>• Y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth<br>• Busnes, menter ac arloesedd<br>• Plant a phobl ifanc<br>• Newid hinsawdd, yr amgylchedd ac ynni adnewyddadwy<br>• Cyflogadwyedd, addysg a hyfforddiant<br>• Iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Adfywio lleoedd<br>• Datblygu gwledig. | H | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Gwybodaeth am feddalwedd ymchwil a dadansoddi arbenigol. | D | CV |
| Gwybodaeth am dechnegau gwerthuso megis modelau cadwyn resymeg. | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Gwybodaeth am dechnegau i ddadansoddi data meintiol ac ansoddol. | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Dealltwriaeth o ddulliau asesu effaith economaidd. | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |

| Sgiliau | | |
|---|---|---|
| Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol gan gynnwys gallu cynllunio a blaenoriaethu i gwblhau gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd ar draws nifer o elfennau prosiectau. | H | Cyfweliad |
| Gallu gweithio dan bwysau a chyflawni tasgau erbyn terfynau amser. | H | Cyfweliad |
| Gweithio'n effeithiol mewn timau prosiect a chynnal perthynas waith gadarnhaol ag aelodau staff eraill. | H | Cyfweliad |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol iawn, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda chydweithwyr a chleientiaid allanol. | H | Cyfweliad |
| Sgiliau ymchwil a dadansoddi o ansawdd uchel sy'n cynnwys sylw manwl i fanylion a chywirdeb a gallu llunio adroddiadau i'w cyhoeddi yn allanol. | H | Cyfweliad |
| Yn gallu cymell eich hun i weithio ac yn gallu gweithredu ar eich liwt eich hun. | H | Cyfweliad |
| Yn hyderus i addasu wrth i bethau newid o ran amodau, tasgau, cyfrifoldebau neu bobl. | H | Cyfweliad |
| Gallu gweithio gyda grwpiau amrywiol wrth ymchwilio a gwerthuso – gan gynnwys cyfranogwyr sy'n agored i niwed. | D | Cyfweliad |
| Diddordeb a hyblygrwydd i weithio ar draws gwahanol brosiectau a sectorau. | H | Cyfweliad |
| Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. | D | CV/Ffurflen gais/cyfweliad |
| Cymwysterau | | |
| Gradd berthnasol neu gymwysterau cyfatebol ac/neu brofiad perthnasol. | H | CV |
| Cymwysterau proffesiynol mewn unrhyw ddisgyblaeth sy'n cynnwys rhifedd, sgiliau ysgrifennu ac/neu sgiliau cyfathrebu/cyflwyno llafar os oes gennych brofiad academaidd neu wirfoddol arall. | D | CV |

# Cwestiynau'r Ffurflen Recriwtio

Fel rhan o'r broses recriwtio, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen gais a chyflwyno'ch CV drwy borth ar-lein. Bydd y ffurflen gais hon yn gofyn i chi ddweud y canlynol wrthym:

- **Eich manylion personol**. Bydd y rhain yn ein helpu i brosesu eich cais.
- **Gwybodaeth amdanoch chi a pham mae gennych ddiddordeb yn y swydd**. Bydd hyn yn ein helpu i lunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer pob swydd.
- **Gwybodaeth ddemograffig amdanoch**. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro ein prosesau recriwtio i sicrhau eu bod mor gynhwysol â phosibl.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn defnyddio eich data personol i'w gael yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Ni fydd yn bosibl i chi arbed y ffurflen gais, felly byddai'n fuddiol i chi baratoi eich atebion o flaen llaw i'r cwestiynau canlynol a'u copïo i'ch cais ar-lein.

- Mewn **llai na 500 o eiriau**, dywedwch wrthym beth sydd wedi eich denu i wneud cais am y rôl hon?
- Mewn **llai na 500 o eiriau**, disgrifiwch sut y bydd eich sgiliau a'ch profiad blaenorol yn eich helpu i lwyddo yn y rôl. Os oes gennych unrhyw syniadau ynghylch sut y gallech ddatblygu eich sgiliau i wella'r rôl ymhellach, mae croeso i chi gynnwys hyn.

I ymgeisio, llanwch y ffurflen gais a lanlwytho eich CV yma.

Os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd neu unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r recriwtio, anfonwch e-bost at: recruitment@wavehill.com

Y dyddiad cau i gyflwyno eich cais yw dydd Gwener 11eg Gorffennaf am 11:59 pm

## Cysylltwch â ni.

0330 122 8658

enquiry@wavehill.com

wavehill.com

**Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol.**

@wavehilltweets

Wavehill: social and economic research

**wavehill.com**